



Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Chwe Mis 2019 - 2020



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb	5
Beth ddwedom oedd angen inni ganolbwyntio arno yn 2019/20?	6
Pa heriau'r ydym wedi parhau i'w hwynebu yn ystod y chwe mis cyntaf?	8
Beth fu ein llwyddiannau allweddol yn y chwe mis cyntaf?	9
Grŵp Monitro Cydraddoldeb Strategol	11
Cyflawni ein Cyfrifoldebau Deddfwriaethol	11
Tystiolaeth o'r "Pum Ffordd o Weithio"	12
Integreiddio ein gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill	12
Cynyddu nifer y mentrau cydweithredol a phartneriaethau rydym yn rhan ohonynt	12
Gwrando ar ein staff, rhanddeiliaid a buddiolwyr	13
Atal Niwed	13
Meddwl yn y Tymor Hir	13



“Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r cynnydd a wnaed yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb strategol yn ystod hanner cyntaf 2019/20. Yn hanner cyntaf y flwyddyn hon rydym wedi bod yn fwy llwyddiannus yn mynd i’r afael â materion cydraddoldeb yn uniongyrchol drwy ein cyllid Loteri strategol na gyda’n cyllid i Bortffolio Celfyddydol Cymru. Bydd cyflawni yn erbyn blaenoriaethau cydraddoldeb ein cynllun corfforaethol, Er Budd Pawb, yn flaenoriaeth i ni. Mae’n dilyn felly y dylai pob sefydliad sy’n gwneud cais ystyried yn ofalus sut mae eu gwaith, eu gweithlu a’u bwrdd yn cynrychioli ac yn cyflawni ar ran holl gymunedau amrywiol Cymru’r unfed ganrif ar hugain.”

Andrew Miller
Cadeirydd, Grŵp Monitro Cydraddoldeb Strategol

Cyflwyniad

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi dyletswyddau penodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gynorthwyo a helpu i wneud cynnydd ar waith cydraddoldeb. Mae cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol: *Er Budd Pawb*, yn cynrychioli agwedd benderfynol o'r newydd ar ran y Cyngor i sicrhau gwelliannau sylweddol i'n hymagwedd at gydraddoldeb. Mae'r cynllun corfforaethol yn cyflwyno ein huchelgais i gynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt, gan dargedu'r bobl hynny o gymunedau a chefnidiroedd nad yw'r celfyddydau yng Nghymru yn eu cynrychioli'n llawn ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad diweddar hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd yn ystod chwe mis cyntaf 2019-2020.

Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb

Wrth ddatblygu ein cynllun yn 2017, nodom bum maes yr oedd angen canolbwyntio arnynt yn benodol.

Dyma'r meysydd hynny:

1. Mynd ati i ymgysylltu, ymgynghori, darparu gwybodaeth a herio ein hunain a'n partneriaid
2. Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru'n well
3. Gwella cynrychiolaeth yn llywodraethiant sefydliadau celfyddydol ledled Cymru
4. Gwneud cynulleidfaoedd i'r celfyddydau yn fwy amrywiol
5. Gwneud cyfranogwyr yn y celfyddydau yn fwy amrywiol

Rydym yn credu'n angerddol bod y celfyddydau i bawb ac yn dal i bryderu nad yw pobl o gymunedau amrywiol ac artistiaid â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli'n llawn ac yn chwarae rhan gyfartal yng nghelfyddydau a diwylliant Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd yn ein sefydliad ac un rhan allweddol o'n cynllun o hyd yw gweithio i wneud Cyngor Celfyddydau Cymru'n sefydliad y mae pobl o amrywiaeth eang o wahanol gefnidoedd a phrofiadau eisiau gweithio gydag ef ac iddo ef.

Mae'r pum amcan yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, rhoddwyd pwyslais arbennig yn y cynllun cyfredol ar gynyddu ymgysylltiad ymysg pobl o gefnidoedd Duon a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl. Dyma'r ddemograffeg a bwysleisiwyd o ganlyniad i'n gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth sy'n galw am sylw penodol ar unwaith.

Beth ddweddom oedd angen inni ganolbwyntio arno yn 2019/20?

In our 2018/19 annual monitoring report we identified 6 key areas that we needed to focus on in 2019-20. These were as follows:

- **Dywedom** y byddem yn parhau i godi proffil ein gwaith cydraddoldeb ac yn edrych am gyfleoedd yng nghynhadledd nesaf Cyngor Celfyddydau Cymru – a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2020 – i hyrwyddo ac annog yr agenda gydraddoldeb drwy drafodaeth, gweithdai a hyfforddiant. Rydym wedi rhannu storïau newyddion ac astudiaethau achos drwy ein sianeli lawer gan gynnwys ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Mae dyddiad ein cynhadledd bellach wedi'i newid i 18 Medi 2020. Bydd yn canolbwyntio ar “Er Budd Pawb” a rhoi lle canolog i gydraddoldeb wrth ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae gwaith bellach ar y gweill i gynllunio ar gyfer y gynhadledd.
- **Dywedom** y byddem yn cyhoeddi ein canllawiau ar gyfer Cynulleidfaoedd Dall ac â Nam ar eu Golwg tuag at ddiwedd 2019 ac yn parhau i fonitro'r potensial ar gyfer cyhoeddiadau newydd. Bu oedi wrth gyhoeddi'r canllawiau a'r disgwyl bellach yw y caiff y cyhoeddiad hwn ei ychwanegu at ein cyfres o ddogfennau ym mis Mawrth 2020.
- **Dywedom** mai ffocws allweddol i'n gwaith yn 2019/20 fydd gweithio i wneud gweithlu Cyngor y Celfyddydau a'r gweithlu ar draws sector y celfyddydau yn fwy amrywiol. I gyflawni hyn byddwn yn parhau â'n partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill wrth adolygu a diwygio ein hamcanion cydraddoldeb o 2020 ymlaen. Ein nod fydd sefydlu rhaglenni prentisiaeth mewnol a thrwy ein grŵp Llwybrau Creadigol sydd newydd ei sefydlu, nodi cyfleoedd am bartneriaethau newydd i ddatblygu prentisiaethau a lleoliadau yn y sector, ar lefel mynediad ac arweinyddiaeth.

Gan ddilyn cyngor Stonewall Cymru, rydym wedi adolygu a diwygio ein ffurflenni cais a hysbysebion swyddi i'w gwneud yn fwy atyniadol i'r gymuned LGBTQ. Rydym wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Goleg Caerdydd a'r Fro a Sgil Cymru i drafod datblygu a chynnig Prentisiaeth Cyfathrebu a Phrentisiaeth Cyllid. Nodwyd Sgil Cymru yn bartner hyfforddi ar gyfer y Brentisiaeth Cyfathrebu. Wedi i swydd-ddisgrifiad gael ei chwblhau, byddwn yn gweithio gyda Sgil Cymru ar ymgyrch recriwtio. Rydym hefyd wedi symud ymlaen yn ein trafodaethau â chydweithwyr mewn Cyrff Cyhoeddus eraill ynglŷn â phrentis cyllid ar y cyd.

- **Dywedom** y byddem yn lansio ein Rhaglenni Loteri newydd yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniom oddi wrth y sector a rhanddeiliaid eraill, gan olygu bod y broses ymgeisio yn haws cael mynediad iddi a sicrhau bod ein proses o wneud penderfyniadau yn cyd-fynd yn agos â'n hamcanion cydraddoldeb.

Mae ein data loteri ar gyfer y 6 mis cyntaf yn dangos bod 91 o sefydliadau a gyflwynodd geisiadau hefyd wedi llenwi ffurflenni monitro cydraddoldeb. O'r 91 yma, bu 63 yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid.

O'r 91 o geisiadau, derbyniwyd 3 oddi wrth gyrff sy'n cael eu harwain gan anabledd, a bu 2 o'r rhain yn llwyddiannus. Derbyniwyd 5 gan sefydliadau sy'n cael eu harwain gan BAME. O'r 5 yma, dyfarnwyd cyllid i bob un. Derbyniwyd 1 cais gan gorff sy'n cael ei arwain gan LGBTQ a fu'n aflwyddiannus.

Mae'r data hefyd yn dangos bod 52 o ymgeiswyr unigol wedi cwblhau ffurflenni monitro cydraddoldeb a bu 29 ohonynt yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid. Menywod oedd 72.1% o'r rhai a lenwodd y ffurflen, a derbyniwyd 5 (9%) oddi wrth artistiaid anabl. Roedd y nifer a lenwyd gan bobl o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn rhy fach inni ei gofnodi. Mater gwirfoddol yw i unigolion lenwi'r ffurflenni monitro ac nid yw'r data sydd gennym o anghenraid yn rhoi inni ddarlun llawn o ymgeiswyr unigol. Serch hynny, y mae'n destun pryder ein bod yn dal i gofnodi niferoedd mor isel.

Rydym wedi dechrau ar waith i adolygu ein rhaglen Camau Creadigol a byddwn yn datblygu menter Llwybrau Creadigol i gynorthwyo i ddatblygu artistiaid o gefndiroedd amrywiol.

- **Dywedom** y byddem yn canfod sut orau i gynorthwyo unigolion/sefydliadau ar draws y grwpiau Nodweddion Gwarchodedig fel rhan o'r rhaglenni newydd. Ein bwriad oedd gwneud hyn drwy adolygiad o effaith Camau Creadigol ac Unlimited, a chynnydd parhaus "Ramps on the Moon" a Hynt.

Rydym wedi dechrau ar ein gwaith o ddatblygu Rhaglen Gydraddoldeb Strategol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Bydd hyn yn cynnwys adolygu Camau Creadigol i sefydliadau a'n perthynas ag Unlimited, yn ogystal ag ymagwedd newydd tuag at gynorthwyo artistiaid unigol drwy ein rhaglen Llwybrau Creadigol.

Rydym yn parhau i weithio gyda grŵp o leoliadau ar ddatblygu rhaglen "Ramps on the Moon" sy'n seiliedig yng Nghymru er mwyn integreiddio artistiaid theatr anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Rydym hefyd mewn trafodaeth â'n partner, Creu Cymru, ynglŷn â chymorth i Hynt i'r dyfodol, ac rydym hefyd yn cynnal trafodaethau â chydweithwyr yng Nghynghorau'r Celfyddydau ledled y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r potensial i greu cynllun cerdyn mynediad ar draws y Deyrnas Unedig.

- **Dywedom** y byddem yn llofnodi cytundeb ffurfiol â Chyrff Cyhoeddus eraill ynglŷn ag amcanion cydraddoldeb cyffredin ar gyfer 2020 ac ymlaen ac yn adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i adlewyrchu hyn.

Yn ystod y chwe mis cyntaf, parhaom i weithio gyda'r 10 o gyrff cyhoeddus partner ar ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb. Comisiynwyd Diverse Cymru i gynnal ymgynghoriad ar ein rhan a gwnaethom arwain pedwar digwyddiad i randdeiliaid ledled Cymru. Caiff y cynllun cydraddoldeb strategol cyffredin ei lansio ar 31^{ain} Mawrth 2020.

Pa heriau'r ydym wedi parhau i'w hwynebu yn ystod y chwe mis cyntaf?

- Dywedom y byddem yn cynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu cyflogi gan Bortffolio Celfyddydol Cymru ac wedi'u cynrychioli ar eu Byrddau Rheoli. Nid ydym yn casglu'r data hwn ar gyfer ein hadroddiad 6 mis ond mae'r holl ddangosyddion yn awgrymu bod sefydliadau'n parhau i fethu â gwneud cynnydd yn ddigon cyflym. Mae gofyn i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru gyflwyno cynlluniau gweithredu cydraddoldeb strategol fel amod o dderbyn cyllid gennym. Mae pob un wedi cyflawni'r amod hwn, ac mae ansawdd cyffredinol y cynlluniau wedi gwella, ond nid ydym yn gweld tystiolaeth o'r camau a gyflwynir yn y cynlluniau hynny. Bydd ein Hadolygiad Buddsoddi a ddaw cyn hir yn rhoi cyfle clir inni gael synnwyr o'r cynnydd ar draws y sector, gyda chydaddoldeb yn nodwedd allweddol o'r cynigion y rhagwelwn y cânt eu cyflwyno inni.
- Rydym wedi cydnabod, wrth symud ymlaen, bod angen inni gryfhau sut rydym yn monitro ac adolygu cynlluniau gweithredu Portffolio Celfyddydol Cymru. Ein bwriad yw cynnwys hyn yn ein sgysiau ar Gytundeb Ariannu yn y dyfodol.
- Rydym wedi bod yn symud ymlaen ar sgysiau â BECTU ynglŷn â'u Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Theatr a byddwn yn gofyn i'r sefydliadau hynny sydd wedi cytuno i hyn i ddarparu diweddariadau ar gynnydd. Rydym yn archwilio sut y gallwn weithio gyda BECTU i ddatblygu adnoddau i gynorthwyo sefydliadau â'r gwaith hwn.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol Cymru tuag at amcanion cyffredin wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r her benodol hon.
- Mae gwneud ein gweithlu ein hunain yn fwy amrywiol yn parhau i fod yn her allweddol. Mae ein data Adnoddau Dynol 6 misol yn dangos nad ydym yn gwneud unrhyw gynnydd mewn perthynas ag ethnigrwydd yn benodol. O ran ethnigrwydd ymhlith cyflogeion presennol, nodir bod 85.6% yn wyn a 1.1% yn ddim gwybodaeth, ac mae ein data ar ymgeiswyr yn adlewyrchu darlun gwaeth gyda 94.9% yn wyn a 2.6% yn unig yn nodi arall. Ar y llaw arall, mae 8.9% o gyflogeion wedi nodi anabledd, ac 15.4% o ymgeiswyr. Rydym wedi disgrifio rhai o'r camau a weithredwn i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu, ond mae'n amlwg bod angen gwneud mwy. Bydd amcanion cydraddoldeb y cyrff cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i sicrhau newid yn y maes hwn.

Beth fu ein llwyddiannau allweddol yn y chwe mis cyntaf?

Dyma rai o uchafbwyntiau ein chwe mis cyntaf:

- Rydym wedi parhau i gynorthwyo chwech o sefydliadau ar daith eu Camau Creadigol. Mae ein sefydliadau Camau Creadigol yn cynnwys Fio, Cwmni Theatr Taking Flight, Cymdeithas Gelfyddydol a Diwylliannol Butetown a Sound Progression.



Peeling gan Kate O'Reilly, Taking Flight Theatre

UNLIMITED...

- Dyfarnwyd comisiynau Unlimited i bedwar o artistiaid sy'n seiliedig yng Nghymru, sef Suzie Larke, Jonny Cotsen, Stephanie Beck a Stammermouth. Gwnaethom hefyd ddatblygu ein partneriaeth ag Unlimited ymhellach drwy ddyfarniad arian loteri i gyflawni *Unlimited Present* mewn lleoliadau ledled Cymru. Bydd y digwyddiadau hyn yn llwyfan i arddangos gwaith gan artistiaid anabl yn ogystal â dwyn artistiaid anabl, cynulleidfaoedd a phartneriaid y sector diwylliannol ynghyd i drafod a dadlau materion lleol a chenedlaethol yn ymwneud â chynhyrchu a chyflwyno gwaith gan artistiaid anabl.



Unseen, Suzie Larke, Unlimited

- Mae ein cynllun cerdyn mynediad, Hynt, i gynulleidfaoedd anabl wedi parhau i fod yn llwyddiant mawr, gyda thros 18,000 o bobl yng Nghymru bellach yn meddu ar gerdyn Hynt. Cyflwynwyd mwy na 1,500 o gardiau rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2019 ac mae 41 o leoliadau yng Nghymru bellach yn rhan o'r cynllun. Mae'r cynllun hefyd yn cael ei ystyried gan ein partner-gynghorau'r celfyddydau a'r BFI fel model posibl i'w gyflwyno ledled y Deyrnas Unedig.



- Drwy ein partneriaeth â Chymdeithas Marchnata'r Celfyddydau, fe wnaethom gefnogi tri o leoliadau bwrsariaeth i swyddogion marchnata sy'n seiliedig yng Nghymru i fynd i Ddiwrnod Cynhwysiant a Chynulleidfaoedd y Gymdeithas. Gwnaethom hefyd ariannu pedair Bwrsariaeth Aelodaeth y Gymdeithas i unigolion anabl neu BAME, neu rai sy'n gweithio mewn sefydliad sy'n cael ei arwain gan anabledd neu BAME.
- Mae ein cynllun teithio cymunedol, Noson Allan, wedi parhau i raglennu sioeau sy'n targedu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol. Mae'r cymunedau hyn yn datblygu i fod yn hyrwyddwyr rheolaidd i ddigwyddiadau Noson Allan. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfleodd i artistiaid anabl ac artistiaid o gefndiroedd BAME i gyflwyno eu gwaith. Mae'r rhain wedi cynnwys Jonny Cotsen, Gods and Kings, Samina Chawdhury a Circus Raj.



Gods & Kings, Robert Bowman, ysgrifennwyd a chyfarwyddir gan Paul Whittaker

- Mae'r data a dderbyniwyd oddi wrth sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn dangos y bu cynnydd yn nifer yr arddangosfeydd a'r dangosiadau ffilm sy'n targedu pobl anabl a phobl o gefndiroedd BAME. Mae cynnydd sylweddol hefyd mewn arddangosfeydd sy'n targedu'r gymuned LGBTQ, o gymharu â chwe mis cyntaf 2018.

- Mewn perthynas â pherfformiadau, mae'r data yn dangos y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a dargedwyd at gynulleidfaoedd anabl gan ein lleoliadau cyflwyno, ond y bu gostyngiad yn nifer y perfformiadau a grëwyd gan ein cwmnïau teithio sy'n targedu pobl anabl. Y duedd i'r gwrthwyneb a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â thargedu pobl o gefndiroedd BAME, gyda chynnydd ymhlith ein cwmnïau teithio a gostyngiad o ran ein lleoliadau cyflwyno.
- Mae ffigurau cymryd rhan ein portffolio yn dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch sy'n targedu pobl anabl a chynnydd bach iawn mewn gweithgarwch sy'n targedu pobl o gefndiroedd BAME. Unwaith eto, mae cynnydd sylweddol yn nifer y sesiynau a dargedwyd at y gymuned LGBTQ.

Grŵp Monitro Cydraddoldeb Strategol

Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn rhywbeth y mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iddo. Y mae wedi gosod y bar yn uchel ac yn awyddus – nid yn unig i gyflawni ein rhwymedigaethau'n llawn – ond i hyrwyddo'r egwyddorion sy'n sail i'r dystiolaeth.

Mae'r cyfrifoldeb dydd i ddydd dros wneud cynnydd yn y gwaith hwn wedi'i ddirprwyo i Grŵp Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gydag aelod o'r Cyngor yn Gadeirydd. Y cadeirydd yn 2019/20 yw Andrew Miller. Yn cydweithio ag ef ar y grŵp mae aelod arall o'r Cyngor, Devinda de Silva, Cyfarwyddwr Cyfranogaeth Gelfyddydol, cydweithwyr o bob rhan o'r cyfarwyddiaethau eraill a'r cynghorwyr allanol, Ele Hicks a Guto Gwilym. Caiff aelod annibynnol arall ei benodi yng ngwanwyn 2020.

Mae'r Grŵp Monitro'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny yn y cynllun, ac mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol.

Cyflawni ein Cyfrifoldebau Deddfwriaethol

Yn 2019/20 rydym wedi parhau i fonitro ein cynnydd. Mae'r tasgau y mae angen i ni eu gwneud o ddydd i ddydd er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn deillio o gyfarfodydd y grŵp monitro, a chynhaliwyd un o'r rhain yn ystod cyfnod y chwe mis cyntaf.

Mae ein cynllun yn parhau i fynd i'r afael â'r ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â:

- diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt.

Mewn perthynas â'r dyletswyddau penodol i Gymru, rydym wedi:

- parhau i fonitro ac adrodd ar wahaniaethau cyflog gan gyfeirio'n benodol at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- casglu a monitro data cyflogaeth, gan gynnwys ceisiadau am swyddi yng Nghyngor y Celfyddydau. Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod bod angen inni gynnwys monitro hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ymysg ein staff.
- parhau i gynhyrchu asesiadau manwl o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ein holl bolisiau, rhaglenni a phrosiectau
- cynnwys disgwyliadau o ran cydraddoldeb yn ein polisi a phrosesau caffael, ond nid ydym wedi datblygu proses eto i fonitro cynnydd yn erbyn y disgwyliadau hyn.

Tystiolaeth o'r "Pum Ffordd o Weithio"

Integreiddio ein gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill

- Rydym wedi ymuno â rhwydwaith o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i ddatblygu amcanion cydraddoldeb cyffredin ar gyfer y cyfnod nesaf o gynllunio gweithredoedd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys cyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ymysg eraill. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn gwnaed cynnydd ar ddatblygu cyfres gyffredin o amcanion cydraddoldeb.
- Rydym wedi derbyn ac wedi nodi adborth o adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ba mor dda mae cyrff cyhoeddus yn gwneud yng Nghymru mewn perthynas â'r dyletswyddau penodol.

Cynyddu nifer y mentrau cydweithredol a phartneriaethau rydym yn rhan ohonynt

- Rydym yn cydnabod bod mentrau cydweithredol a phartneriaethau cryf yn hollbwysig i'r rhan fwyaf o'n gwaith yn y dyfodol. Daeth hyn hefyd i'r amlwg fel un o'r themâu yn ein sesiynau ymgynghori ynghylch cynllun corfforaethol newydd a chronfa'r loteri. Mae sector y celfyddydau'n awyddus i'w weld ei hun yn rhan o bartneriaethau creadigol a deinamig mewn cymunedau a chymdogaethau yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda Chynghorau'r Celfyddydau eraill ar draws y Deyrnas Unedig gan ddysgu o'u gwaith hwythau a rhannu ein gwaith ninnau.
- Rydym yn gweithio gyda chyrff cydraddoldeb allweddol i helpu i fwrw ymlaen â'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Stonewall Cymru, Diverse Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Race Council Cymru.

- Rydym wedi partneru gyda nifer fawr o ymddiriedolaethau a sefydliadau i ddatblygu mentrau cydweithredol megis Sefydliad Baring a phrosiect cARTrefu i ddod â'r celfyddydau creadigol i gartrefi gofal.

Gwrando ar ein staff, rhanddeiliaid a buddiolwyr

- Mae ein Grŵp Monitro Cydraddoldeb yn cynnwys staff o wahanol rannau o'r sefydliad ac rydym wedi cynnwys y staff yn y gwaith o ddatblygu ein cynllun corfforaethol newydd, cynllun gweithredol a'r ymgynghoriad ar y loteri – y mae ein hagenda cydraddoldeb yn greiddiol i bob un ohonynt.
- Roedd ymgynghori â rhanddeiliaid, partneriaid a sefydliadau ac unigolion yr ydym wedi'u hariannu – yn ogystal â cheisio siarad â'r rhai nad ydym yn eu hariannu – yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun corfforaethol newydd a strategaeth y loteri. Cawsom arweiniad gan arbenigwyr yn y maes ynghylch sut i wneud hyn cystal ag oedd yn bosibl. Er ein bod wedi sicrhau gwelliant, rydym yn cydnabod bod llawer mwy y gellir ei wneud i ehangu ystod y cyfranogwyr yn y digwyddiadau hyn ac i estyn allan i'r rheiny nad ydynt mor gyfarwydd â ni neu ein gwaith.
- Rydym yn cydnabod bod angen inni wella a gweddnewid y ffordd yr ydym yn cynnwys rhanddeiliaid a buddiolwyr yn ddyfnach yn y gwaith o gynllunio a chreu ein polisiau a'n rhaglenni.

Atal Niwed

- Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi cael eu cynllunio i roi sylw i'r agenda atal.

Meddwl yn y Tymor Hir

- Rydym wedi cydnabod eleni bod angen inni gynllunio yn y tymor hirach er mwyn i'n hamcanion gael eu gwireddu. Nid yw arian am un flwyddyn i brosiectau a rhaglenni'n darparu'r sicrwydd mae ei angen i greu newid gwirioneddol.